



Department  
for Environment  
Food & Rural Affairs

# Rhoi diwedd ar werthu mawn mewn garddwriaeth yng Nghymru a Lloegr

Rhagfyr 2021

Ni yw Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig. Rydym yn gyfrifol am wella a gwarchod yr amgylchedd, tyfu'r economi werdd, cynnal cymunedau gwledig sy'n ffynnu a chefnogi ein diwydiannau bwyd, ffermio a physgota pwysig.

Rydym yn cydweithio'n glos â'n 33 o asiantaethau a chyrff hyd braich i gyflawni ein huchelgais i wneud ein haer yn fwy pur, ein dŵr yn fwy glân, ein tir yn fwy gwyrdd a'n bwyd yn fwy cynaliadwy. Ein cenhadaeth yw adfer a gwella'r amgylchedd ar gyfer y genhedlaeth nesaf, a gadael yr amgylchedd mewn cyflwr gwell nag oedd pan gawsom ef.



© Hawlfraint y Goron 2020

Mae'r wybodaeth hon wedi'i thrwyddedu o dan Drwydded Llywodraeth Agored fersiwn 3.0. I weld y drwydded hon, ewch i [nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/](http://nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/)

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn [www.gov.uk/government/publications](http://www.gov.uk/government/publications)

Dylid anfon unrhyw ymholiad am y cyhoeddiad hwn atom yn:

[Horticultural.Peat@defra.gov.uk](mailto:Horticultural.Peat@defra.gov.uk)

[www.gov.uk/defra](http://www.gov.uk/defra)

# Crynodeb

## Rhan 1: Cyd-destun

Polisi presennol a chynnydd y Llywodraeth

Beth ydym ni'n gobeithio ei gyflawni?

## Rhan 2: Y cynigion yn yr ymgynghoriad

Beth ydym ni'n ei gynnig?

Sut ydym ni'n bwriadu gwneud newidiadau?

Sut mae ymateb i'r ymgynghoriad

## Rhan 3: Effaith a galwad am dystiolaeth

## Rhan 4: Rhestr o gwestiynau'r ymgynghoriad

## Atodiad A – Galwad am dystiolaeth

# Crynodeb

### Pwnc yr ymgynghoriad hwn

- Mesurau i roi diwedd ar y defnydd o fawn a chynnyrch sy'n cynnwys mawn mewn manwerthu garddwriaethol.
- Holi barn ar bob un o'r mesurau arfaethedig a sut y gellid eu gweithredu.
- Galw am dystiolaeth o effeithiau rhoi'r gorau i ddefnyddio mawn a chynnyrch sy'n cynnwys mawn yn y sectorau garddwriaeth proffesiynol ac ehangach.

## **Cwmpas yr ymgynghoriad hwn**

Nod yw ymgynghoriad hwn yw rhoi sylw i fesurau i roi diwedd ar y defnydd o fawn a chynnyrch sy'n cynnwys mawr yn y sector manwerthu yng Nghymru a Lloegr.

## **Cwmpas daearyddol**

Gallai'r mesur(au) a ffeirir ymestyn i a chael eu cymhwyso yng Nghymru a Lloegr.

## **At:**

Mae'r ymgynghoriad hwn yn arbennig o berthnasol i:

- Unigolion neu grwpiau (h.y. Sefydliadau Amgylcheddol Anllywodraethol) gyda diddordeb mewn gwarchod ac adfer mawndiroedd
- Unigolion neu fusnesau sy'n prynu, gwerthu, mewnforio ac allforio mawn a chynnyrch sy'n cynnwys mawn
- Cymdeithasau neu sefydliadau sy'n cynrychioli busnesau neu unigolion sy'n prynu a gwerthu mawn a chynnyrch sy'n cynnwys mawn
- Unigolion neu fusnesau sy'n torri mawn yn fasnachol

## **Y corff sy'n gyfrifol am yr ymgynghoriad**

Mae'r ymgynghoriad hwn yn cael ei gynnal gan dîm Priddoedd a Mawndiroedd Defra ar ran llywodraethau Cymru a'r DU.

## **Hyd**

Bydd yn ymgynghoriad yn agor ar 18 Rhagfyr 2021

Daw'r ymgynghoriad i ben ar 18 Mawrth 2022

## **Ymholiadau**

Yn ystod yr ymgynghoriad, os oes gennych unrhyw ymholiadau neu os hoffech gael copïau caled o'r dogfennau, cysylltwch â: [Horticultural.Peat@defra.gov.uk](mailto:Horticultural.Peat@defra.gov.uk)

## **Sut mae ymateb**

Gellir cwblhau'r ymgynghoriad hwn ar-lein yn: <https://consult.defra.gov.uk/soils-and-peatlands/endingtheretailsaleofpeatinhorticulture>

Neu gellir anfon ymatebion ysgrifenedig (gan nodi pa gwestiwn (neu gwestiynau) rydych eu hateb) i:

Peat in Horticulture Consultation

Soils and Peatlands Team

Area SE

Seacole Building

2 Marsham Street

Llundain

SW1P 4DF

Os ydych chi'n ymateb yn Gymraeg, gofynnir i chi ymateb drwy e-bost neu'n ysgrifenedig. Rhaid cyflwyno eich ymatebion erbyn 18 Mawrth 2022.

### **Ar ôl yr ymgynghoriad**

Yn dilyn y cyfnod ymgynghori byddwn yn crynhoi'r ymatebion ac yn cyhoeddi'r crynodeb hwn ar ein gwefan yn: <https://www.gov.uk/search/policy-papers-and-consultations>.

Bydd copiâu o'r ymatebion ar gael i'r cyhoedd, ar gais. Os nad ydych am i'ch ymateb – gan gynnwys eich enw, manylion cyswllt ac unrhyw wybodaeth bersonol arall – fod ar gael i'r cyhoedd, nodwch eich rheswm yn eglur yn ysgrifenedig pan fyddwch yn cyflwyno eich ymateb i'r ymgynghoriad hwn. Eglurwch pam y mae angen i chi gadw'r manylion yn gyfrinachol. Byddwn yn ystyried eich rhesymau os bydd rhywun yn gofyn am yr wybodaeth hon o dan ddeddfwriaeth rhyddid gwybodaeth. Ond, oherwydd y gyfraith, ni allwn addo y byddwn yn gallu cadw eich manylion yn gyfrinachol bob amser. Noder, os yw eich cyfrifiadur yn cynnwys ymwadiad cyfrinachedd yn awtomatig, ni fydd hyn yn cyfrif fel cais am gyfrinachedd.

### **Cydymffurfio ag Egwyddorion Ymgynghori Cyfrinachedd**

Mae'r ymgynghoriad hwn yn cydymffurfio ag Egwyddorion Ymgynghori'r llywodraeth. Mae rhain i'w weld yn: [www.cabinetoffice.gov.uk/resource-library/consultation-principlesguidance](http://www.cabinetoffice.gov.uk/resource-library/consultation-principlesguidance).

# Rhan 1: Cyd-destun

Mae mawndiroedd yn nodweddion eiconig o'n tirwedd. Dyma storfeydd carbon mwyaf y DU. Maent hefyd yn gweithredu fel gwasanaethau ecosystem hanfodol, fel cyflenwi dros chwarter dŵr yfed y DU, lleihau'r perygl o lifogydd, a rhoi bwyd a lloches i fywyd gwyllt prin. Pan fydd mawn yn cael ei dorri, mae'r carbon sydd wedi'i storio y tu mewn iddo yn cael ei ryddhau fel carbon deuocsid, sy'n cyfrannu at newid yn yr hinsawdd. Mae torri mawn hefyd yn diraddio cyflwr mas y mawn sy'n bygwth bioamrywiaeth ac effeithiolrwydd eu gwasanaethau ecosystem ar draws ardal fwy.

Mae mawn yn y cael ei dorri yn y DU i ddibenion garddwriaethol yn bennaf, gyda chyfryngau tyfu mewn sachau'n cyfrif am 70% o'r mawn a werthir yn y DU. Mae ganddo ddefnyddiau hefyd, fel rôl mewn cynhyrchu wisgi, ond mae'r defnyddiau hyn yn cyfrif am gyfran fechan iawn yn unig o gyfanswm y defnydd a wneir o fawn.

Mae cyfryngau tyfu a werthir yn aml yn cael eu camddefnyddio gan ddefnyddwyr, er enghraifft fel gwellhäwr pridd yn hytrach na chyfrwng i luosogi planhigion ynddo. Mae gwellhäwyr pwrpasol nad ydynt yn cynnwys mawn ac gael yn gyffredinol ac maent yn llawer mwy effeithiol.

Mae dau draean o'r mawn a werthir yn y DU yn cael ei fewnforio o weddill Ewrop. Mae hyn yn golygu bod ein defnydd o fawn yn cyfrannu'n uniongyrchol at allyriadau carbon a cholli cynefinoedd y tu allan i'r DU, rydym yn allforio'n ôl-troed carbon.

Mae'r diwydiant garddwriaeth yn gwneud ymdrech fwriadol i droi at opsiynau heblaw mawn ac mae'n cydweithio'n agos â'r Llywodraeth i wneud hynny. Fodd bynnag, mae cynnydd y diwydiant i symud at opsiynau heblaw mawn wedi bod yn araf. Rydym wedi datgan droeon os na fyddai'r targedau gwirfoddol a bennwyd yn 2011 i roi'r gorau i ddefnyddio mawn a chynnyrch sy'n cynnwys mawn yn Lloegr yn llwyddo, y byddai mesurau pellach yn cael eu hystyried. Gan nad ydym wedi cyrraedd y targed gwirfoddol i roi'r gorau i ddefnyddio mawn yn y sector amatur erbyn 2020, mae angen camau pellach yn awr gan y Llywodraeth i sicrhau bod y diwydiant garddwriaeth yn parhau i wneud cynnydd i droi at opsiynau heblaw mawn, ac i roi diwedd ar y defnydd o fawn a chynnyrch sy'n cynnwys mawn yn y sector hwnnw.

Mae rhanddeiliaid yn y diwydiant wedi creu tasglu eleni i ganolbwyntio ar roi diwedd ar y defnydd o fawn mor gynnar â 2025 ac yn ddim hwyrach na 2028. Mae Cynllun Cyfryngau Tyfu o Ffynonellau Cyfrifol hefyd wedi'i lansio. Er bod y cynigion hyn gan y diwydiant yn rhai addawol, mae angen gweithredu pellach gan y Llywodraeth i sicrhau bod y diwydiant cyfan yn parhau i wneud cynnydd i newid i opsiynau heblaw am fawn, a thrwy hynny rhoi diwedd ar y defnydd o fawn a chynnyrch sy'n cynnwys mawn.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn disgrifio mesurau i roi diwedd ar werthu mawn a chynnyrch sy'n cynnwys mawn, sy'n dangos ein hymrwymiad i warchod mawndiroedd a'n hystyriaeth i'r effaith bositif a gaiff hynny i helpu i atal newid yn yr hinsawdd.

# Polisi ac arferion presennol

## Lloegr

Roedd Llywodraeth y DU wedi pennu targedau gwirfoddol yn 2011, gyda'r nod o gael sector amatur di-fawn erbyn 2020 a sector proffesiynol di-fawn erbyn 2030 yn Lloegr. Gwnaed peth cynnydd sylweddol, yn sgil y buddsoddiad a wnaed gan weithgynhyrchwyr a manwerthwyr wrth i opsiynau heblaw mawn gyrraedd y farchnad: yn 2019 roedd maint y mawn a werthwyd mewn cyfryngau tyfu yn 2.06 miliwn m<sup>3</sup> o'i gymharu â 2.76 miliwn m<sup>3</sup> yn 2011. Mae hyn yn ostyngiad o 25% ym maint yn y mawn a werthwyd mewn cyfryngau tyfu rhwng 2011 a 2019. Fodd bynnag, bu cynnydd o 9% ym maint y mawn a werthwyd yn y DU yn 2020 oherwydd galw heb ei debyg a brofwyd drwy gydol y flwyddyn gyda mwy o bobl yn dechrau garddio fel hobi yn ystod y cyfyngiadau symud ac effaith y pandemig bydeang ar gadwynau cyflenwi'r deunyddiau amgen.

Ers nifer o flynyddoedd bellach mae'r Llywodraeth wedi bod yn ymgysylltu â rhanddeiliaid yn y diwydiant, yn ffurfiol ac yn anffurfiol, gan gynnwys trafodaethau cyn cyhoeddi'r England Peat Action Plan lle cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei bwriad i roi diwedd ar y defnydd o fawn erbyn diwedd y tymor seneddol cyfredol. Mae'r ymgysylltu hwn wedi arwain at beth llwyddiant; cydweithrediad ar fentrau'r diwydiant, yn bennaf â'r Horticultural Trades Association a'r Growing Media Association, ac wrth i'r manwerthwyr mawr weithredu mewn ymateb i'w polisiâu cynaliadwyedd eu hunain, mae wedi arwain at ostyngiad yn y defnydd o fawn yn ogystal â chodi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r defnydd o fawn.

## Cymru

Mae Cymru Sero Net wedi ymrwymo Cymru i ystyried gwaharddiad ar werthu mawn a chynnyrch sy'n cynnwys mawn. Er nad oes mawn yn cael ei dorri ar hyn o bryd yng Nghymru, mae atal gwerthu cynnyrch sy'n cynnwys mawn yn cyd-fynd ag ymrwymiad 'Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol' i fod yn gyfrifol ar raddfa fyd-eang. Mae'r Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd (NPAP), a lanswyd yn 2020, yn disgrifio cynllun gweithredu i'w ddilyn dros gyfnod o bum mlynedd o dan chwe blaenoriaeth. Bydd y Rhaglen yn targedu'r mawndiroedd hynny sydd â'r angen mwyaf i'w hadfer.

## Gogledd Iwerddon

Mae DAERA yn cydnabod y bydd gwarchod ac adfer mawndiroedd Gogledd Iwerddon yn Ddatrysiad Seiliedig ar Natur allweddol i fynd i'r afael ag argyfyngau'r hinsawdd a bioamrywiaeth. Bu DAERA yn ymgynghori'n ddiweddar ar Peatland Strategy for Northern Ireland drafft ac un o'r materion a godwyd oedd gwahardd y defnydd o fawn yn raddol yn y sectorau amatur a phroffesiynol. Disgwylir y bydd DAERA yn cyhoeddi'r fersiwn derfynol o'r Northern Ireland Peatland Strategy yn 2022.

## Yr Alban

Mae Llywodraeth yr Alban wedi ymrwymo i fwrw ymlaen â gwaith i ddatblygu ac i ymgynghori ar waharddiad ar werthu cynnyrch gardd sy'n cynnwys mawn, y cam cyntaf yn

ei hymrwymiad i wahardd defnyddio mawn mewn garddwriaeth. Mae Llywodraeth yr Alban yn cydnabod bod adfer a gwarchod mawndiroedd yn allweddol fel datrysiad seiliedig ar natur i liniaru ac i addasu i heriau deuol newid yn yr hinsawdd a cholli bioamrywiaeth. Maent yn elfen allweddol o adferiad gwyrdd a phontio cyfiawn yr Alban i sero net erbyn 2045.

## Beth ydym ni'n gobeithio ei gyflawni?

Rydym yn anelu at roi diwedd ar werthu mawn a chynnyrch sy'n cynnwys mawn yng Nghymru a Lloegr erbyn diwedd y tymor Seneddol hwn, ac erbyn 2028 yn y sector garddwriaeth proffesiynol. Bydd hyn yn rhoi diwedd ar allyriadau nwyon tŷ gwydr yn sgil torri a defnyddio mawn i ddibenion domestig, gan gyfrannu at darged allyriadau carbon sero net y llywodraethau, yn ogystal â rhoi diwedd ar allforio ein hallyriadau nwyon tŷ gwydr drwy ddefnyddio mawn wedi'u fewnforio. Bydd hyn hefyd yn rhoi diwedd ar weithrediadau sy'n parhau i ddiraddio ein mawndiroedd a'u cofnodion archeolegol a phalaeo-amgylcheddol a gwaredu rhwystr pwysig rhag i'r safleoedd hyn gael eu hadfer i fod yn gynefinoedd lle mae mawn yn cael ei ffurfio.

Wrth wneud hynny rydym am weld sector garddwriaeth ffyniannus yng Nghymru a Lloegr lle gall gweithgynhyrchwyr cyfryngau tyfu a thyfwyr gystadlu'n deg, boed eu cynnyrch wedi'i gynhyrchu yn y wlad hon neu wedi'u fewnforio. Rydym am weld y sector yn troi at ddefnyddio cyfryngau tyfu di-fawn, ac mae ansawdd llawer o'r rhain gystal â chyfryngau sy'n cynnwys mawn ac sydd wedi'u cynhyrchu gan ddefnyddio deunyddiau di-fawn sy'n dod o ffynonellau mwy cynaliadwy, er enghraifft, ffibr pren a rhisgl, compost gwyrdd, rhisgl cnau coco a deunyddiau eraill.

Mae'n bwysig nodi bod y farchnad ei hun yn mynd drwy gyfnod o newid ers i'r cwmni Bord na Mona (yn Iwerddon) gyhoeddi yn 2021 ei fod yn rhoi'r gorau i dorri mawn<sup>20</sup>. Mae'r rhan fwyaf o'r mawn sy'n cael ei werthu yn y DU yn cael ei fewnforio o Iwerddon. Bydd hyn yn cael effaith sylweddol ar y diwydiant garddwriaeth, yn bennaf ar ffurf amseroedd aros hir a goblygiadau cost wrth fewnforio mawn o dir mawr Ewrop.

## Rhan 2: Y cynigion yn yr ymgynghoriad

Diben yr ymgynghoriad hwn yw:

- Clywed barn ar fesurau sydd â'r nod o roi diwedd ar werthu mawn a chynnyrch sy'n cynnwys mawn yn y **sector manwerthu** yng Nghymru a Lloegr.
- Galwad am dystiolaeth ar effeithiau rhoi'r gorau i ddefnyddio mawn a chynnyrch sy'n cynnwys mawn yn y sectorau garddwriaeth **proffesiynol** a sectorau ehangach.

Rydym yn cydnabod y dylai fod rhai eithriadau wedi'u diffinio'n gyfyng i'r mesurau a gynigir i roi diwedd ar ddefnyddio mawn a chynnyrch sy'n cynnwys mawn yn y **sector manwerthu**, ac edrychir ar y rhain yn yr ymgynghoriad hwn.

## Beth ydym ni'n ei gynnig?



Rydym yn cynnig gwahardd ar werthu mawn a chynnyrch sy'n cynnwys mawn (cynnyrch sy'n cynnwys mawn yn gyfan gwbl neu'n rhannol) yn y **sector manwerthu**. Bydd unrhyw waharddiad yn cynnwys mawn domestig ac wedi'i fewnforio. Rydym hefyd yn cynnig bod mesurau eraill hefyd yn cael eu hystyried:

- Cyflwyno mesurau mewn mannau gwerthu ar gyfer cyfryngau tyfu mewn sachau (tâl mewn mannau gwerthu am brynu unrhyw sach o gyfrwng tyfu sy'n cynnwys mawn; a labelu gofodol a deunydd mewn mannau gwerthu sy'n cynnwys manylion am y rhesymau amgylcheddol dros wrthod cynnyrch sy'n cynnwys mawn).
- Adrodd gofodol ar faint o fawn a werthir gan yr holl werthwyr mawn a chynnyrch sy'n cynnwys mawn.

Mae'r ymgynghoriad hefyd yn cynnwys eithriadau posibl, gan gynnwys dibenion gwyddonol ac uchafswm y mawn a ganiateir mewn cynnyrch penodol, ac y bydd yn rhaid eu diffinio'n fanwl a'u gorfodi'n llym i atal manteisio ar y sefyllfa. Hyd yn oed gyda'r eithriadau posibl hyn, bydd unrhyw waharddiad ar fanwerthu yn help mawr i leihau defnydd o fawn a'i dorri, a bydd hyn yn ei dro'n helpu i warchod ein mawndiroedd.

Nid oes bwriad gennym i roi diwedd ar werthu cynnyrch sy'n cynnwys mawn fel stoc addurnol meithrinfeydd, bydd defnydd y sectorau proffesiynol o fawn yn cael ei ystyried fel rhan o'n galwad am dystiolaeth.

Ni fydd ein newidiadau arfaethedig yn effeithio ar y trwyddedau presennol i dorri mawn – bydd trwyddedau cyfredol yn y maes penodol hwn yn parhau'n weithredol. Fodd bynnag, bydd y mesurau arfaethedig yn effeithio ar y farchnad am fawn a chynnyrch sy'n cynnwys mawn gan ei bod yn anorfod y bydd yn achosi lleihad yn y galw am fawn.

Bydd ein mesurau arfaethedig yn weithredol yng Nghymru a Lloegr. Er mwyn asesu effaith y cynigion hyn ar farchnad fewnol y DU, byddwn yn croesawu ymatebion gan unigolion a sefydliadau ledled y Deyrnas Unedig.

## Sut ydym ni'n cynnig gwneud newidiadau?

Rydym yn cynnig gweithredu'r gwaharddiad a ddisgrifiwyd ar werthu mawn a chynnyrch sy'n cynnwys mawn drwy ddeddfwriaeth sylfaenol, cyn gynted ag y bydd amser Seneddol yn caniatáu.

## Sut mae ymateb i'r ymgynghoriad

Mae cwestiynau'r ymgynghoriad wedi'u cynnwys yn "Rhan 4: Cwestiynau'r ymgynghoriad" yn y ddogfen hon.

Gofynnir i chi ymateb erbyn 18 Mawrth 2022.

Gofynnir i chi ymateb drwy'r arolwg ar-lein (Citizen Space) sydd ar gael drwy Gov.uk.

Gellir hefyd anfon ymatebion drwy e-bost i [Horticultural.Peat@defra.gov.uk](mailto:Horticultural.Peat@defra.gov.uk)

neu drwy'r post, gan nodi pa gwestiwn (neu gwestiynau) yr ydych yn ymateb iddynt:

Peat in Horticulture Consultation  
Soils and Peatlands Team  
Area SE  
2 Marsham Street  
Llundain  
SW1P 4DF

Mae'r ymgynghoriad hwn yn cyd-fynd ag Egwyddorion Ymgynghori'r llywodraeth. Mae'r rhain i'w gweld yn [www.cabinetoffice.gov.uk/resource-library/consultation-principles-guidance](http://www.cabinetoffice.gov.uk/resource-library/consultation-principles-guidance).

Gofynnir i grwpiau cynrychioliadol roi crynodeb o'r bobl a'r sefydliadau maent yn eu cynrychioli a phan yn berthnasol pwys arall maent wedi ymgynghori â hwy i ddod i'w casgliadau pan fyddant yn ymateb.

Gall gwybodaeth a roddir mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn, gan gynnwys data personol, gael eu cyhoeddi neu eu datgelu yn unol â'r cyfundrefnau mynediad at wybodaeth; a'r prif rai yw Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 (EIRs), Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (FOIA) a Deddf Diogelu Data 2018 (DPA). Mae ymrwymiad arnom, yn bennaf o dan yr EIRs, FOIA a'r DPA, i ddatgelu gwybodaeth i dderbynwyr penodol neu i'r cyhoedd mewn amgylchiadau penodol.

Os hoffech i'r wybodaeth a roddir gennych gael ei thrin yn gyfrinachol, dylech fod yn ymwybodol bod yr Adran, fel awdurdod cyhoeddus, yn rhwym i'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ac felly gall fod rhwymedigaeth arnom i ddatgelu'r holl wybodaeth a roddir gennych neu beth ohoni. O ystyried hwn, byddai'n fuddiol pe baech yn egluro wrthym pam yr ydych yn credu bod yr wybodaeth a roddwyd gennych yn gyfrinachol. Os cawn gais i ddatgelu'r wybodaeth, byddwn yn ystyried eich esboniad yn llawn, ond ni allwn roi sicrwydd y gellir cadw cyfrinachedd ym mhob achos. Ni fydd ymwadiad cyfrinachedd awtomatig a gynhyrchir gan eich system TG ynddo'i hun yn cael ei ystyried yn rhwymol ar yr Adran.

Os oes gennych unrhyw sylwadau neu gwynion am y broses ymgynghori, dylech eu cyfeirio at:

Consultation Coordinator  
Seacole Building  
2 Marsham Street  
Llundain  
SW1P 4DF

Neu e-bostiwch: [consultation.coordinator@defra.gov.uk](mailto:consultation.coordinator@defra.gov.uk)

## Rhan 3: Effaith a galwad am dystiolaeth

Cyn inni weithredu o gwbl, rydym am ddeall beth yn union fyddai'r effeithiau llesol ac andwyol posibl ar unigolion, busnesau a'r amgylchedd naturiol, ac unrhyw sectorau eraill a effeithir. Rydym yn croesawu tystiolaeth o'r effaith y gall ein cynigion ei chael yn y meysydd hyn, yn enwedig tystiolaeth ar raddfa'r effaith ac a oes unrhyw ffyrdd y gallwn helpu o ran opsiynau di-fawn eraill.

## Rhan 4: Rhestr gwestiynau'r ymgynghoriad

Mae cwestiynau'r ymgynghoriad gydag esboniad o'r cefndir wedi'u rhestru isod. Rydym yn argymhell eich bod yn ateb y cwestiynau ar-lein, drwy'r ddolen hon:

<https://consult.defra.gov.uk/soils-and-peatlands/endingtheretailsaleofpeatinhorticulture>.

Os ydych yn ymateb yn Gymraeg, gofynnir i chi ymateb drwy e-bost neu drwy ymateb ysgrifenedig y gallwch ei bostio atom. Gweler y **Crynodeb** ar frig y ddogfen hon am ragor o fanylion am ffyrdd eraill o ymateb i'r ymgynghoriad.

### Cwestiynau'r ymgynghoriad

#### Amdanoch chi

Cwestiwn 1: Pa un o'r canlyniad yw'r disgrifiad gorau ohonoch chi:

- Garddwr amatur (h.y. defnyddiwr cynnyrch garddwriaeth nad yw'n gwerthu unrhyw gynnyrch ac yn y blaen)
- Corff/corff anllywodraethol amgylcheddol
- Gweithgynhyrchydd cyfryngau tyfu
- Manwerthwr cyfryngau tyfu mewn sachau
- Tyfwr garddwriaeth proffesiynol
- Torrwr mawn

Cwestiwn 2: Ym mha diriogaeth/tiriogaethau ydych chi'n byw neu, os yn gymwys, mae eich busnes yn gweithredu?

#### Busnes fel arfer h.y. parhau â'r dull gwirfoddol

Cwestiwn 3: Mae ein dull cyfredol yn cynnwys targedau gwirfoddol i roi'r gorau i ddefnyddio mawn mewn garddwriaeth erbyn 2020 yn y sector amatur. A ddylem ni barhau â'r dull gwirfoddol?

Cwestiwn 4: Pe baem yn newid y dyddiad ar gyfer rhoi diwedd ar ddefnyddio mawn mewn garddwriaeth yn achos y sector amatur, beth ddylai'r dyddiad hwnnw fod?

#### Adrodd gorfodol ar faint o fawn a werthir (pob gwerthwr)

Er bod rhai manwerthwyr wedi ymgysylltu â'r llywodraeth ac wedi ymateb yn bositif i'r targed gwirfoddol i roi'r gorau i ddefnyddio mawn garddwriaethol, mae llawer o fanwerthwyr o hyd nad ydynt yn teimlo bod y mater hwn yn flaenoriaeth iddynt. Pan fydd yn rhaid i fanwerthwr neu gwmni roi gwybod am fater y mae'n rhaid iddynt ei fonitro a deall sut mae hyn yn effeithio ar eu busnes, mae hyn yn gofyn am fwy o ymgysylltu ar y mater. Mae rhai manwerthwyr eisoes yn cofnodi faint o fawn maent yn ei werthu ac maent yn gwneud ymdrechion i leihau hyn o flwyddyn i flwyddyn. O gofio pwysigrwydd mawn i'n huchelgais ar gyfer yr hinsawdd a natur, rydym am ei gwneud yn ofynnol bod gwerthwyr cynnyrch garddwriaeth sy'n cynnwys mawn yn cyhoeddi eu gwerthiant blynyddol o fawn (yn ôl maint). Bydd hyn yn creu pwysau ar hyd y gadwyn gyflenwi (gan wneud i bob rhan gymryd perchnogaeth) ac yn cynyddu'r galw am gynnyrch di-fawn. Mae'r model hwn sy'n olrhain ac yn adrodd yn gyhoeddus ar fater yn cael ei ddefnyddio gan y llywodraeth i annog newid mewn ymddygiad, er enghraifft, y model a ddefnyddir gan Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Gwybodaeth am y Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau) 2017.

Cwestiwn 5: A ydych chi'n [ymateb ar ran?] busnes?

Cwestiwn 6: A ydych chi'n fusnes yn y sector garddwriaeth?

Cwestiwn 7: Faint o gyflogeion sydd yn eich sefydliad?

Cwestiwn 8: A ydych chi'n cytuno y dylai gwerthwyr mawn garddwriaethol gael gwybodaeth gan eu gweithgynhyrchwyr am faint o fawn sydd yn y sachau cyfryngau tyfu maent yn eu werthu?

Cwestiwn 9: A fyddech chi'n gallu asesu faint o fawn sydd yn y sachau cyfryngau tyfu rydych yn eu werthu? [Os gallwch] Sut fyddwch yn asesu hyn?

Cwestiwn 10: A ddylai busnesau bach a chanolig gael mwy o amser i fabwysiadu'r mesur hwn? [Os dylent] Faint yn fwy o amser ddylem ni ei roi i fusnesau bach a chanolig i fabwysiadu'r mesur hwn?

Cwestiwn 11: Pa mor ymarferol fydd hi i werthwyr cynnyrch sy'n cynnwys mawn, er enghraifft, planhigion mewn potiau, i gael gwybodaeth fanwl am faint o fawn a ddefnyddir ym mhotiau'r planhigion?

Cwestiwn 12: A ddylai rhai manwerthwyr gael eu heithrio rhag adrodd a ydynt yn werthu llai na maint penodol o fawn mewn blwyddyn? [Os ydych wedi ateb 'dylent'] Beth ddylai'r trothwy fod, mewn litrau?

Cwestiwn 13: A ydych chi'n cytuno y byddai'r mesur hwn yn annog y diwydiant garddwriaeth i leihau ei ddefnydd o fawn a chynnyrch sy'n cynnwys mawn?

Cwestiwn 14: A ydych chi'n cytuno y byddai'r mesur hwn yn helpu i godi ymwybyddiaeth o faterion yn ymwneud â mawn garddwriaethol?

## Gwahardd manwerthu mawn a chynnyrch sy'n cynnwys mawn

Rydym yn ymwybodol o'r pryderon amgylcheddol sydd ynghlwm wrth ddefnyddio mawn mewn garddwriaeth ers y 1990au a mynegwyd llawer o rwystredigaeth am nad yw'r mater byth wedi'i ddatrys. Rydym wedi dod i'r casgliad nad yw'r dull gwirfoddol wedi datrys y broblem. Un o'r rhwystrau mwyaf rhag atal y defnydd o fawn mewn garddwriaeth fu'r diffyg chwarae teg tybiedig ac ymdeimlad y byddai'r cyntaf i wneud hynny o dan anfantais oherwydd pris uwch yr opsiynau eraill o'i gymharu â mawn a chostau cynhyrchu uwch. Byddai'r mesur hwn yn sicrhau chwarae teg i bawb ac yn gwneud yn siŵr bod mwy o gynnydd yn cael ei wneud i roi'r gorau i ddefnyddio mawn. Byddai gwaharddiad ar werthu mawn a chynnyrch sy'n cynnwys mawn yn gymwys yn achos mawn domestig ac wedi'i fewnforio.

Cwestiwn 15: A ydych chi'n credu y dylid gwahardd **manwerthu** mawn a chynnyrch sy'n cynnwys mawn yng Nghymru a Lloegr?

Cwestiwn 16: A fydd yn ymarferol i weithredu gwaharddiad ar werthu yn y sector **manwerthu** erbyn diwedd y tymor seneddol hwn (2024)?

Cwestiwn 17: A oes diwydiannau heblaw am y diwydiant garddwriaeth a fyddai'n cael eu heffeithio'n ddifrifol gan waharddiad ar **fanwerthu** mawn a chynnyrch sy'n cynnwys mawn? [Os 'oes'] pa ddiwydiannau?

Cwestiwn 18: A ddylid caniatáu unrhyw eithriadau rhag gwaharddiad o'r fath?

Cwestiwn 19: Yn achos planhigion a llwyni mewn potiau, beth ddylid ei ganiatáu fel uchafswm y mawn a ddylai gael ei eithrio o waharddiad ar werthu mawn?

## Tâl a godir wrth brynu sachau o unrhyw gyfrwng tyfu sy'n cynnwys mawn

Mae cyfryngau tyfu a werthir mewn sachau yn cyfrif 70% o'r mawn a werthir yn y DU. I'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr, y prif ffactorau sy'n dylanwadu ar y dewis o gyfrwng tyfu a brynir yw pris a hwylustod<sup>4</sup>. Mae cyfryngau tyfu di-fawn yn aml yn ddrutach na chyfryngau tyfu sy'n cynnwys mawn, ac felly nid oes cymhelliad ariannol ar hyn o bryd i ddefnyddwyr ddewis cyfryngau tyfu di-fawn. Nod y mesur hwn yw cael gwared ar y gwahaniaeth prisiau drwy godi pris cyfryngau tyfu sy'n cynnwys mawn.

Byddai'r mesur hwn yn golygu y byddai'n rhaid i bob manwerthwr sy'n gwerthu cyfryngau tyfu sy'n cynnwys mawn (neu'n danfon cyfryngau tyfu sy'n cynnwys mawn sy'n tarddu o wlad arall) godi tâl man gwerthu (POS) ar bob sach o fawn neu gyfrwng tyfu sy'n cynnwys mawn a werthir ganddynt. Nid yw hon yn dreth ac ni fyddai'r arian a godir yn mynd i'r llywodraeth. Byddai manwerthwyr yn casglu'r tâl wrth y til ac yn cael eu hannog i roi'r arian

i achosion da, gan ddilyn model y tâl am fagiau plastig. Byddai lefel y tâl yn cael ei phennu i ddileu'r gwahaniaeth pris rhwng cyfryngau tyfu sy'n cynnwys mawn a rhai di-fawn. Gallai fod yn gymwys yn achos unrhyw gynnyrch sy'n cynnwys mawn, faint bynnag o fawn sydd yn y cynnyrch.

Cwestiwn 20: A ydych chi'n credu y bydd y mesur i godi pris cyfryngau tyfu sy'n cynnwys mawn yn cael effaith ar ymddygiad defnyddwyr?

Cwestiwn 21: A fyddai'r mesur hwn yn annog gwerthu mwy o gyfryngau tyfu amgen di-fawn?

Cwestiwn 22: Beth fyddai'n lefel briodol ar gyfer y tâl man gwerthu ar gyfer sach 50L o gyfryngau tyfu sy'n cynnwys mawn?

Cwestiwn 23: A oes gennych chi farn am yr hyn ddylai manwerthwyr ei wneud â'r arian a godir drwy'r tâl man gwerthu am sachau?

Cwestiwn 24: A ydych chi'n credu y dylid cael eithriadau i'r tâl man gwerthu? [Os ydych] Sut ddylem ni benderfynu pwy ddylai gael eu heithrio o'r mesur?

Cwestiwn 25: Yn ychwanegol at y tâl pwynt gwerthu, a ydych chi'n credu y byddai labelu gorfodol ar sachau cyfryngau tyfu sy'n cynnwys mawn yn cael effaith ar ymddygiad ddefnyddwyr?

## Atodiad A: Galwad am Dystiolaeth

Ein nod yw rhoi diwedd ar y defnydd o fawn mewn garddwriaeth, ym mhob sector, erbyn 2028. Yn 2020, roedd 30% o'r mawn a werthid yn y DU yn cael ei ddefnyddio gan y sector proffesiynol (tyfwyr ffrwythau, llysiau a phlanhigion masnachol).

Mae'r alwad hon am dystiolaeth yn gwahodd ymateb gan ystod eang o bartïon â diddordeb, gan gynnwys tyfwyr ffrwythau a llysiau masnachol, cynhyrchwyr cyfryngau tyfu, academyddion, y cyhoedd, grwpiau buddiant defnyddwyr a busnesau a'u cymdeithasau masnach.

Byddem yn arbennig o falch o glywed eich barn ar:

- Rhwystrau technegol rhag amnewid mawn mewn cyfryngau tyfu
- Argaeledd a chost opsiynau heblaw mawn
- Effaith mewnfario cynnyrch o fannau lle caniateir defnyddio mawn

Rydym yn annog pob parti â diddordeb i gyflwyno syniadau ar roi'r gorau i ddefnyddio mawn mewn garddwriaeth, a chyflwyno dystiolaeth a data i ategu eu safbwyntiau. Gallwch lwytho unrhyw dystiolaeth a dogfennaeth ategol i fyny at yr arolwg Citizen Space hwn. Neu, gallwch ei e-bostio i [Horticultural.Peat@defra.gov.uk](mailto:Horticultural.Peat@defra.gov.uk).

Hefyd, byddwn yn gweithio â rhanddeiliaid allweddol fel rhan o broses ymgysylltu agored i gefnogi'r alwad hon am dystiolaeth. Byddwn yn defnyddio ymatebion i'r alwad hon am dystiolaeth i lywio datblygiad argymhellion polisi i roi'r gorau i ddefnyddio mawn mewn garddwriaeth yn y sector proffesiynol.

Cwestiwn 26: (Galwad am Dystiolaeth) A ddylem ni newid y targed gwirfoddol i roi'r gorau i ddefnyddio mawn a chynnyrch sy'n cynnwys mawn i 2028 ar gyfer y sector proffesiynol yn Lloegr?

Cwestiwn 27: (Galwad am Dystiolaeth) Pa bryd fyddai hi'n ymarferol i wahardd gwerthu mawn a chynnyrch sy'n cynnwys mawn ar gyfer y sector proffesiynol?

## Atodiad: Diffiniadau

Defnyddir **Cyfryngau Tyfu** i ddisgrifio'r deunydd a ddefnyddir mewn cynhwysydd i dyfu planhigyn<sup>9</sup>. Mae termau eraill sy'n cael eu defnyddio yn cynnwys 'swbstrad' a 'phridd potio'. Yn y DU mae rhai pobl yn dal i ddefnyddio'r term 'compost' yn yr un cyd-destun, fodd bynnag, yn dechnolegol compost yw cynnyrch gwaith gompostio (e.e., y domen gompost yng ngwaelod yr ardd) ac felly mi all fod yn air camarweiniol. Gall deunydd wedi'i gompostio fod yn elfen o gyfrwng tyfu, ond nid yw mawn yn ffrwyth proses gompostio nac ychwaith llawer o'r cynhwysion eraill a ddefnyddir. Mae cyfryngau tyfu'n aml yn cael eu gwneud o gymysgedd o wahanol ddeunyddiau crai er mwyn cael y cydbwysedd cywir i allu dal aer a dŵr ar gyfer y planhigion sydd i'w tyfu.

Mae **Gwellhäwyr Pridd**: (neu gyflyrwypridd) yn ddeunyddiau sy'n cael eu hychwanegu at bridd i wella ei nodweddion ffisegol a/neu gemegol<sup>10</sup>. Defnyddir gwellhäwyr pridd fel arfer i wella ffrwythlondeb y pridd drwy gynyddu lefel y deunydd organig yn y pridd. Maent yn gwella rhywiogrwydd y pridd dros amser, er enghraifft drwy wneud priddoedd clai trwm yn haws i'w gweithio a gellir eu defnyddio i wella gallu priddoedd ysgafn i ddal dŵr. Nid oes yn rhaid i wellhäwyr pridd gynnwys mawn, ac nid oes fawr ddim gwellhäwyr pridd a werthir yn y DU yn ei gynnwys bellach<sup>11</sup>.